

Cyfeirnod: IR810

Dyddiad cyhoeddi: 21 Chwefror 2022

Colledion a Thaliadau Arbennig

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 24 Ionawr 2022, lle gofynnoch am wybodaeth mewn perthynas â cholledion a thaliadau arbennig.

Er hwylustod, rwyf wedi atgynhychu eich cwestiynau isod, gan nodi ein hymatebion cyfatebol:

Dyma gais am wybodaeth mewn perthynas â cholledion a thaliadau arbennig. A fydddech cystal â chynnwys yr wybodaeth ar gyfer pob un o'r cyfnodau canlynol; 2018-19, 2019-20 a 2020-21:

- **Cyfanswm yr achosion o golledion ym mhob blwyddyn.**

Mae'r wybodaeth y gofynnir amdani yn rhesymol hygyrch trwy ddulliau eraill ac felly mae wedi'i heithrio yn rhinwedd adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Nid yw'r eithriad hwn yn destun prawf lles y cyhoedd.

Gellir gweld cyfanswm a manylion y colledion adroddadwy yn yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol, sydd ar gael ar wefan Archwilio Cymru:

[Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2018-19](#) (tudalen 123)

[Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2019-20](#) (tudalen 127)

[Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2020-21](#) (tudalen 137)

- **Cyfanswm cost y colledion ym mhob blwyddyn.**

Gweler yr ateb uchod.

- **Rhestr fanwl o bob colled, gan gynnwys yr hyn yr oedd yn ymwneud ag ef a faint oedd ei gost.**

Gweler yr ateb uchod.

- **Cyfanswm y taliadau arbennig ym mhob blwyddyn.**

Ni chedwir yr wybodaeth hon - ni chofnodwyd unrhyw daliadau arbennig ar gyfer y cyfnod y gofynnwyd amdano.

- **Cyfanswm gwerth y taliadau arbennig ym mhob blwyddyn.**

Nid yw'n gymwys, ni chedwir yr wybodaeth hon.

- **Rhestr fanwl o bob taliad arbennig, gan gynnwys yr hyn yr oedd yn ymwneud ag ef a faint oedd ei gost.**

Nid yw'n gymwys, ni chedwir yr wybodaeth hon.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu gwestiynau ynghylch y modd yr wyf wedi ymdrin â'ch cais, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,

Y Swyddog Gwybodaeth